


# PECYN CWRICWLWM YSGOL

#ARBENYBYD

Ar gyfer defnydd lawrlwytho'n unig drwy wefan BBC Bitesize, Hwb a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

## CYFLWYNIAD

Croeso i becyn cwricwlwm ysgolion yr FAW.

Wedi'i wneud gan athrawon ar gyfer athrawon, mae hwn yn cynnwys pum syniad gwers y gellir eu dysgu yn ystod, ac ar ôl Cwpan y Byd FIFA 2022.

Gan ddefnyddio strwythurau'r gwersi a'r adnoddau perthnasol y gellir eu lawrlwytho o BBC Bitesize, gall athrawon ddysgu gwersi yn eu hysgolion eu hunain lle mae Pêl-droed Cymru yn adnodd ar gyfer dysgu. Mae pecyn cwricwlwm ysgolion Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cynnwys pedwar syniad gwers, strwythurau a 'Phrosiect Arbennig'.

I gael mwy o wybodaeth neu ymholiadau am y pecyn cwricwlwm ysgolion, neu anfon unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau at ddibenion rhannu cyffredinol neu at ddibenion cystadlu, cysylltwch â ni ar info@faw.cymru

Defnyddiwch y 'Llyfryn Adnoddau' sy'n cynnwys dolenni, gwybodaeth a delweddau eraill i gyd-fynd â'r 'Pecyn Cwricwlwm' hwn.

## CYNNWYS

**1: QATAR: DIWYLLIANT A THREFTADAETH**

**2: ASESU CYMRU AR LWYFAN Y BYD**

**3: TEITHIO A THWRISTIAETH**

**4: FFASIWN A BRANDIO**

**5: PROSIECT ARBENNIG: CYNLLUN ARLOESEDD FIFA**

**CREDYDAU**

# 1 - QATAR: DIWYLLIANT A THREFTADAETH

## Nod y wers

I ddisgyblion hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a threftadaeth Qatar.

## Gwybodaeth

Bydd Cwpan y Byd FIFA yn 2022 yn cael ei chynnal yn Qatar - gwlad sydd â diwylliant a threftadaeth gwahanol iawn i'r un yng Nghymru. Gwlad fechan i'r gogledd-ddwyrain o Sawdi Arabia yw Qatar.

Mae'r rhan fwyaf o adnoddau â ddefnyddir ar gyfer y gwersi hyn i'w gweld yn y tri dolen ar (gweler rhan 1 y llyfryn adnoddau). Mae baner a map ar gael hefyd.

## Tasg gychwynnol

Bydd map o Qatar yn cael ei ddangos i'r dosbarth, y disgyblion sydd â'r dasg o ddyfalu'r wlad. Ar ôl i'r wlad gael ei dyfalu, gofynnir i'r dosbarth "beth sy'n arwyddocaol am Qatar?".

Gêm gyflym o 'dewch o hyd i Qatar ar y map'. Gall yr athro hefyd edrych i ddefnyddio Google neu Apple Maps. Cwestiynu disgyblion am wybodaeth o'r dasg meddwl, neu gwybodaeth blaenorol – "beth maen nhw'n ei wybod am Qatar a'r dwyrain canol?"

A oes unrhyw ddisgybl/disgyblion yn gwybod am unrhyw arferion diwylliannol, crefyddau neu ddigwyddiadau sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol?

Pa wledydd y gallan nhw eu henwi? Ydyn nhw'n gwybod am unrhyw ddinasoedd yn Qatar?

## Prif dasg

Ymchwilio i ddiwylliant, hanes a threftadaeth Qatar gan ddefnyddio'r tair erthygl ymchwil a ddarperir yn rhan 1 y llyfryn adnoddau. Dulliau ymchwil posibl:

- Cynlluniwch eich trip i Qatar

- Hanes Qatar

- Daearyddiaeth a hinsawdd Qatar

## Gwahaniaethu

**EFYDD** – Mae'r disgyblion yn cael y dasg o un pwnc ymchwil.

**ARIAN** – Mae disgyblion yn cael y dasg o ddau bwnc ymchwil.

**AUR** – Mae disgyblion yn cael y dasg o dri bwnc ymchwil.

# Tasg(au) ymestynol

Adolygu gwaith disgyblion eraill drwy gyflwyno cyflwyniad neu drafodaeth grŵp. Cwestiwn – "Sut mae diwylliant a threftadaeth Qatar yn wahanol i ddiwylliant Cymru? Pa wahaniaethau a thebygrwydd y gellir nodi rhwng Qatar a Cymru?"

# Diweddglo

Mae gan athro a disgyblion fynediad i'r cyswllt 'Termau Pêl-droed Arabeg' sydd wedi'i atodi, ac mae nhw'n gallu archwilio ac ynganu termau Arabeg sy'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun pêl-droed.



# 2 - ASESU CYMRU AR LWYFAN Y BYD

## Nod y wers

Er mwyn asesu twf timau rhyngwladol Cymru dros y cyfnod o 2010-2022.

## Gwybodaeth

Ar gyfer y wers hon, bydd angen i ddisgyblion gael mynediad i'r wê er mwyn ymchwilio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg.

Yn ystod y wers, bydd angen mynediad i Safleoedd y Byd FIFA ar gyfer y disgyblion (gweler rhan 2 y llyfryn adnoddau). Cynghorir bod yr athro/athrawes yn ymgyfarwyddo â gwefan y safleoedd cyn dysgu'r wers hon: https://www.fifa.com/fifa-world-ranking

## Tasg gychwynnol

Cwestiynau i'w cyflwyno i ddisgyblion:
A) Sut mae mesur llwyddiant?
B) Sut mae mesur llwyddiant mewn chwaraeon?
C) Sut gallwn ni ddefnyddio data i ddangos llwyddiant? Oes enghreifftiau?

## Prif dasg

Cymharu tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru dros y 12 mlynedd diwethaf: 2010-2022.

Cyflwyniad i safleoedd y byd FIFA: Beth oedd safle Cymru yn FIFA y byd yn y flwyddyn a'r mis y cafodd y disgyblion eu geni? Defnyddiwch: FIFA/Coca-Cola World ranking.

Beth oedd Cymru yn rancio ar ddechrau pob blwyddyn rhwng 2010-2022?

## Gwahaniaethu

**EFYDD** – Gan ddefnyddio safle y byd FIFA, tynnu llun a plotio graff llinell i ddangos newid safle FIFA tîm cenedlaethol Cymru rhwng 2010-2022.

**ARIAN** – Plotio graff llinell i ddangos newid safle FIFA tîm cenedlaethol Cymru rhwng 2010 a 2022. Ychwanegwch ddwy wlad arall o'r rhestr o wledydd sy'n cystadlu yng Nghwpan y Byd 2022 - gall y rhain fod o ddewis y disgyblion neu'r athro.

Cymharwch dwf tîm cenedlaethol Cymru gydag un o'r ddau dîm arall a ddewiswyd.

**AUR** - Tasg arian fel uchod; efallai y bydd yr athro eisiau ychwanegu gwledydd pellach o amrywiaeth o gyfandiroedd gwahanol.

Hefyd, ystyriwch unrhyw anghysondebau yn rhestrau Cymru o 2010-2022 (cyrhaeddodd Cymru 8fed yn 2015 ar ôl cyrraedd Ewro 2016!).

Esboniwch y rhesymeg tu ôl i'r 'anghysondeb', a pham y caiff ei ystyried yn anghysondeb.

# Tasg(au) ymestynol

Edrychwch ar safleoedd merched Cymru o'r un Cyfnod (2010-2022). Mae'r safleoedd ar gyfer tîm merched yn weddol ddigyfnewid yn ystod y cyfnod hwn.

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried pa ffactorau eraill (y tu allan i bêl-droed cystadleuol) sydd o bosib wedi dylanwadu ar hyn.

# Diweddglo

Cwestiwn: "Sut all llwyddiant Timau Pêl-droed Cenedlaethol Cymru fod o fudd i wlad Cymru?"

Fe ddylai disgyblion drafod y manteision y bydd tîm pêl-droed rhyngwladol llwyddiannus yn ei gael ar wlad.



# 3 - TEITHIO A THWRISTIAETH

## Nod y wers

Gwneud disgyblion yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n ymwneud â chefnogwyr Pêl-droed Cymru pan fyddan nhw'n dymuno gwylio'r Tîm Cenedlaethol yn y stadiwm genedlaethol.

## Gwybodaeth

Bydd disgyblion yn darllen gwybodaeth am gefnogwyr Cymru sy'n teithio i gemau o'r saith dinas yng Nghymru a byddant yn amlinellu'r problemau mae'r cefnogwyr hyn yn eu hwynebu mewn llythyr at Lywodraeth Cymru, er mwyn ceisio gwella profiad y cefnogwyr yma ar ddiwrnod gêm.

Ar gyfer y wers hon, bydd angen i chi ddarparu amrywiaeth o eiriau allweddol i ddisgyblion Arian y dylent fod yn eu cynnwys yn eu darnau ysgrifenedig, tra hefyd yn rhoi sgaffald i ddisgyblion Efydd ar sut i ysgrifennu'n berswadiol.

## Tasg gychwynnol

Bydd disgyblion yn derbyn gwybodaeth am gefnogwyr Cymru (gweler rhan 3 y llyfryn adnoddau) o sut mae cefnogwyr Cymru ledled y wlad yn cyrraedd gemau pêl-droed eu cenedl yng Nghaerdydd. Bydd angen iddynt archwilio'r heriau y mae'r cefnogwyr hyn yn eu profi – yn benodol, y rhai sy'n dod o'r dinasoedd yng Ngogledd/Gorllewin Cymru.

## Prif dasg

Drwy ddefnyddio'r wybodaeth yn y dasg gychwynnol, bydd disgyblion yn ysgrifennu llythyr i berswadio Llywodraeth Cymru dynnu sylw at faterion mae cefnogwyr pêl-droed Cymru o Ogledd Cymru yn profi wrth iddynt deithio i gêm yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Dylai disgyblion geisio dod o hyd i ddatrysiadau i'r problemau yma gyda'r bwriad o wella profiad cefnogwyr. Mi ddylen nhw archwilio mewn i gostau, amser teithio ac argaeledd trafnidiaeth i gemau.

## Gwahaniaethu

**EFYDD** – Darparu sgaffald i helpu disgyblion i strwythuro eu llythyron i ddwyn perswâd.

**ARIAN** – Bydd y disgyblion hyn yn cael banc geiriau gallent ddefnyddio er mwyn cefnogi eu pwyntiau. Dylent geisio cynnig atebion i rai o'r materion posibl.

**AUR** - Dylai'r disgyblion yma ddefnyddio dyfyniadau o gefnogwyr a phroblemau go iawn i ehangu ar eu pwyntiau yn eu llythyron i ddwyn perswâd.

Gall problemau ychwanegol go-iawn gynnwys streiciau rheilffyrdd, tywydd, amseroedd cychwyn y gemau, gwaith, amser gwyliau blynyddol ayyb.

# Tasg(au) ymestynol

Bydd disgyblion wedyn yn cael y cyfle i gymharu'r teithiau hyn â'u taith eu hunain i'r gemau. Mi ddylen nhw gymharu cost, amser teithio, amlder trafnidiaeth gyhoeddus a nifer o ffactorau ychwanegol.

# Diweddglo

I gloi'r wers, gofynnir i ddisgyblion werthuso'r dyfyniadau canlynol gan gefnogwyr Cymru sy'n teithio i gemau cartref ac oddi-cartref Cymru:

"It's a farce. I can travel quicker to Brussels and Amsterdam from Bala than I can get to Cardiff for a midweek Welsh game." – Steffan

"The time and money it takes to travel from Caernarfon and back after a home game has seriously made me consider whether I should just watch the games at home." – Gwen

"Mae'r system trafnidiaeth gyhoeddus ar ddiwrnod gem o Ogledd Cymru lawr i Gaerdydd yn warthus; dwi wastad angen sefyll ar y trên am hyd at 4 awr pob tro!" – Elan



# Nod y wers

I gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o Hanes (Pêl-droed) Cymru trwy ddylunio Cit Pêl-droed Cymru newydd a Nwyddau Pêl-droed eraill Cymru.

# Gwybodaeth

Bydd disgyblion yn tynnu ar wybodaeth fyddent wedi ei dderbyn ar Hanes Cymru yn flaenorol, neu wedi derbyn yn y dasg gychwynnol. Bydd cyfle i greu 3ydd Cit Pêl-droed Cymru newydd sy'n cynrychioli hanes y wlad/citiau pêl-droed blaenorol Cymru.

Ar gyfer y wers hon, bydd angen i athrawon ddarparu pensiliau lliw i'r disgyblion er mwyn iddynt ddylunio eu cit (Efydd ac Arian). Yn ogystal, bydd angen i chi ddarparu mynediad i gyfrifiadur er mwyn i ddisgyblion Aur allu dylunio eu citiau mewn ffurf graffeg.

# Tasg gychwynnol

Gweler rhan 4 y llyfryn adnoddau. Er mwyn cael gwybodaeth am y pwnc, bydd amrywiaeth o luniau i ddisgyblion o ffigurau hanesyddol yn Hanes/Diwylliant Cymru (Owain Glyndŵr, Gorymdeithiau Annibyniaeth Cymru, Yr Urdd ayb.) ynghyd ag amrywiaeth o luniau o Bêl-droed Cymru yn y gorffennol (2016 Euros, cit oddi-gartref melyn, Cwpan y Byd 1958, gêm gyntaf yn 1876). Bydd disgyblion yn siarad gyda phartner er mwyn ceisio penderfynu pryd maen nhw'n credu cafodd y citiau yma eu gwisgo gan dîm Cymru. I fyfyrwyr Aur, gall lluniau gael eu dangos o ddigwyddiadau llai adnabyddus yn Hanes Pêl-droed Cymru, fel gemau yn erbyn Brasil/Sbaen yn y 2000au, Gêm Ragbrofol Cwpan y Byd 1993 yn erbyn Romania er enghraifft, er mwyn wella eu gwybodaeth hanesyddol o bêl-droed Gymru.

# Prif dasg

Trwy ddefnyddio gwybodaeth o wersi blaenorol a gwybodaeth eu hunain, y prif dasg fydd dylunio 3ydd cit pêl-droed Cymru sydd yn arddangos Hanes Cymru/Hanes Pêl-droed Cymru gyda balchder. Bydd y cit hwn yn cael ei greu gan ddefnyddio ysbrydoliaeth o luniau a ddangosir yn y dasg gychwynnol, megis baner Tyddewi, yr Urdd, Owain Glyndŵr ayyb a bydd yn cael ei chreu i Gymru wisgo fel 3ydd cit yn ystod Cwpan y Byd 2022. Bydd y disgyblion angen pensiliau lliw, neu gyfrifiadur, i gynllunio eu citiau.

# Gwahaniaethu

**EFYDD** – Bydd disgyblion yn lliwio eu templed cit gyda lluniau sy'n cael eu darparu gan yr athrawon er mwyn iddyn nhw eu defnyddio fel ysbrydoliaeth. Dylid argraffu'r lluniau hyn hefyd er mwyn eu rhoi i'r disgyblion yn unigol.

**ARIAN** – Bydd disgyblion hefyd yn defnyddio'r lluniau sy'n cael eu darparu gan yr athrawon er mwyn iddyn nhw eu defnyddio fel ysbrydoliaeth. Anogir iddyn nhw i feddwl ymhellach drwy feddwl am eu syniadau eu hunain. Bydd y disgyblion yma hefyd yn anodi eu dyluniadau drwy esbonio pwysigrwydd y ffigurau/lliwiau y maent wedi'u defnyddio yn eu dyluniadau.

**AUR** - Bydd disgyblion yn gallu dylunio eu cit mewn ffurf graffeg gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron a ddarperir gan yr ysgol. Bydd disgyblion hefyd yn gallu anodi eu dyluniadau, a defnyddio'r rhyngrwyd i gael ysbrydoliaeth ychwanegol ar gyfer eu citiau a'u gwneud yn fwy unigryw (does dim angen cadw at y lluniau darparwyd gan yr athro/athrawes).

# Tasg(au) ymestynol

Bydd disgyblion Efydd yn anodi eu darluniau gan ddangos rhesymeg tu ôl i'w dewisiadau o ddylunio eu cit. Yn ogystal, gallai disgyblion Efydd wneud y dasg wahaniaethu Arian os ydyn nhw wedi anodi'n barod.

Bydd disgyblion Arian yn creu nwyddau marchnata sydd i'w gweld o gwmpas Stadiwm Dinas Caerdydd ar ddiwrnod gemau, fel hetiau bwced a sgarffiau a mwy.

Bydd disgyblion Aur yn gallu darllen taflen wybodaeth 'Spirit of 58' i archwilio twf poblogrwydd y cwmni, er mwyn gweld y tueddiadau. Bydd gwybodaeth yn cael ei ddarparu gan y perchennog, Tim Williams, a dylai'r disgyblion archwilio pam fod y cwmni wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r wybodaeth yn y llyfryn adnoddau.

# Diweddglo

Bydd disgyblion yn siarad mewn grwpiau am arwyddocâd a digwyddiadau yn y dasg gychwynnol a phwysigrwydd dathlu Hanes ein gwlad - gyda map meddwl yn cael ei wneud gan ddisgyblion er mwyn cael trafodaeth efo gweddill y dosbarth.

Bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau i'w gilydd fel "Sut gall Hanes Cymru gael ei gefnogi drwy Bêl-droed Cymru?", a bydd angen gwerthuso sut y bydden nhw'n dathlu pen-blwydd y Gymdeithas Pêl-droed o Gymru yn 150 oed yn 2026.



# 5 - PROSIECT ARBENNIG: PROSIECT ARLOESEDD

## Disgrifiad

Rydych wedi cael eich penodi'n Bennaeth Arloesi FIFA ac wedi cael y dasg o wneud sawl newid i Bêl-droed. Mae eich tîm newydd wedi cynnig awgrymiadau hir dymor mawr fel Dyfarnwyr Robotig ac awgrymiadau llai a haws fel gwaharddiad ar siorts gwyn ym mhêl-droed Merched. Dylai'r disgyblion ddod â'u syniadau ymlaen a datblygu syniadau FIFA.

## Tasg

Dyluniwch arloesedd newydd a fydd yn effeithio'n bositif ar unrhyw faes o bêl-droed.

Crëwch boster, clip fideo, clip radio, erthygl papur newydd, glasbrint, trafodaeth, darn ysgrifennu perswadiol neu greadigaeth artistig arall ar yr arloesedd, wrth drafod y canlynol: Beth yw e? Pam mae'n cael ei weithredu? Pryd mae'n cael ei weithredu? Gan bwy? Sut?

## Estyniad

Crëwch/datblygwch syniadau eich tîm ar gyfer arloesedd newydd ar gyfer pob un o'r categorïau canlynol:

- Technoleg Uwch
- Dillad neu Ategolion
- Gweithrediadau Diwrnod Gêm (Trafnidiaeth Cefnogwyr & Tîm, Diogelwch, Rheolaeth Tu Ôl Y Llenni, ac ati)

## Diweddglo

Cyflwynwch eich syniad(au) i grŵp, partner neu'r dosbarth, ac aseswch syniadau cyd-ddisgyblion eraill.

## Anfonwch eich arloesedd atom

Danfonwch e-bost i info@faw.cymru efo enw eich ysgol a'r teitl 'FIFA INNOVATION PROJECT' am y cyfle i ennill gwobrau!



## CREDYDAU

Mr S Lloyd
*(Project Lead, Football Association of Wales)*

Mr C Ellis
*(Communications & Engagement Executive, Football Association of Wales)*

Mr S Grosvenor
(*Athro Hanes/Ysgol Llanhari)*

Mr C Mitchell
*(Athro Gwyddoniaeth/Ysgol Glantaf)*

Mr C Willis
*(Athro Busnes/Ysgol Llanhari)*

Gareth Thomas & Ben Jones
*(The Football History Boys)*

Tim Williams
*(Spirit of 58)*